ATODLEN 4

Caniatâd adeilad rhestredig

# RHAN 1

## Addasu deddfwriaeth sylfaenol

**1.**—(1) Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**1**) ("y Ddeddf Adeiladau Rhestredig") ("*the Listed Buildings Act*") yn gymwys gyda'r addasiadau canlynol.

(2) Rhaid darllen adran 10 (gwneud ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig) fel a ganlyn—

(a) yn lle is-adran (1) rhodder "An application for listed building consent must be made to and dealt with by the Welsh Ministers";

(b) yn is-adran (2)(c) yn lle "the authority" rhodder "the Welsh Ministers".

(3) Rhaid darllen adran 62 (dilysrwydd gorchmynion a phenderfyniadau penodol) fel a ganlyn—

(a) yn is-adran (2), ar ôl paragraff (a), mewnosoder y canlynol—

"(aza) any decision on an application for listed building consent where that decision is made by the Welsh Ministers by virtue of section 62F(2) of the principal Act.";

(b) yn is-adrannau (1) a (3) rhodder "the Welsh Ministers" yn lle "the Secretary of State" mewn perthynas â phenderfyniadau sydd o fewn is-adran (2)(aza).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 4 para. 1 mewn grym ar 1.3.2016, gweler **rhl. 1(2)**

(**1**) 1990 p. 9.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016, Paragraff 1.